OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 3364

# Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Cymru) 2005

## RHAN 5

Apeliadau Treth Cyngor

### Trefn y gwrandawiad

**34.**—(1) Yn ddarostynedig i baragraff (2), gweithredir swyddogaeth Tribiwnlys i wrando neu benderfynu apêl gan dri aelod o Dribiwnlysoedd Prisio ac mae'n rhaid iddynt gynnwys o leiaf un Cadeirydd; a Chadeirydd fydd yn llywyddu.

(2) Lle bo pob parti i apêl sy'n ymddangos yn cytuno, gellir penderfynu'r apêl gan ddau aelod o Dribiwnlysoedd Prisio, ac er gwaethaf absenoldeb Cadeirydd.

(3) Cynhelir y gwrandawiad yn gyhoeddus, oni fo'r Tribiwnlys yn gorchymyn fel arall ar gais parti, ac wedi iddo gael ei fodloni y byddai buddiannau'r parti hwnnw'n cael eu heffeithio'n niweidiol.

(4) Os metha'r apelydd ag ymddangos yn y gwrandawiad, caiff y Tribiwnlys wrthod yr apêl, ac os metha unrhyw barti arall ag ymddangos, caiff y Tribiwnlys wrando a phenderfynu'r apêl yn absenoldeb y parti hwnnw.

(5) Caiff y Tribiwnlys fynnu bod unrhyw dyst yn rhoi tystiolaeth ar lw neu drwy gadarnhau, a bydd ganddo hawl i'r diben hwnnw i weinyddu llw neu gadarnhad yn y ffurf briodol.

(6) Caiff partïon yn y gwrandawiad eu clywed ym mha drefn bynnag a benderfynir gan y Tribiwnlys, a chânt holi unrhyw dystion gerbron y Tribiwnlys a galw tystion.

(7) Caniateir gohirio gwrandawiad am ba amser bynnag, i ba le bynnag ac ar ba delerau bynnag (os o gwbl) a ystyrir yn briodol gan y Tribiwnlys; a rhaid rhoi hysbysiad rhesymol o'r amser a'r lleoliad y gohiriwyd y gwrandawiad iddo, i bob parti.

(8) Os ystyria ei fod yn briodol, caiff Tribiwnlys, wedi hysbysu'r partïon a'u gwahodd i fod yn bresennol, archwilio unrhyw annedd sy'n destun apêl.

(9) Yn ddarostynedig i unrhyw ddarpariaethau yn y Rhan hon, o ran y Tribiwnlys—

- (a) rhaid iddo gynnal y gwrandawiad yn y modd a ystyria'n fwyaf priodol i egluro'r materion ger ei fron ac yn gyffredinol i ymdrin yn gyfiawn â'r achos;
- (b) rhaid iddo, cyn belled ag yr ymddengys yn briodol iddo, geisio osgoi ffurfioldeb yn ei drafodion; ac
- (c) ni fydd wedi'i glymu gan unrhyw ddeddfiad neu reol cyfraith yn ymwneud â derbynioldeb tystiolaeth gerbron llysoedd barn.